

## Tasg 4

## Bargen!

Faint o ostyngiad mae'r teulu wedi ei gael ar y gwyliau yma?

Faint maen nhw wedi'i dalu?

Faint oedd pris y gwyliau cyn y gostyngiad?

Mae llawer o bobl yn aros am sêl cyn prynu gwyliau oherwydd maen nhw eisiau cael borgen. Edrychwch ar y bargeinion yma.

Faint fydd y gost i'r teuluoedd sydd eisiau mynd?

GWESTY PEDAIR SEREN

£200 y person

3 noson am bris 2 noson

Mae Mr a Mrs Jones eisiau mynd i aros am bedair noson. Faint fyddan nhw'n ei dalu?

MAES CARAFANAU

£850 am garafán i 4 person am wythnos

Borgen arbennig: 20% os ydych chi'n aros am bythefnos.

Mae Steff, Emma a'r plant eisiau mynd i aros am wythnos. Faint fyddan nhw'n ei dalu?

Mae Dyfrig a Diana a'r teulu eisiau mynd i aros am bythefnos. Faint fyddan nhw'n ei dalu?

GWESTY TAIR SEREN

£150 y noson am ystafell ( i dri pherson)

Borgen arbennig: 15% i ffwrdd ym mis Awst

Mae Elin, Rhian a Siwan eisiau mynd i aros am bedair noson ym mis Awst. Faint fyddan nhw'n ei dalu?

Nawr, gwnewch 3 hysbyseb am fargen arbennig ar wyliau.

Dywedwch pwy sydd eisiau mynd ar y gwyliau ac am faint o amser.

Rhowch yr hysbysebion i bartner er mwyn iddo / iddi gyfrifo'r swm.